CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
27 Mawrth 2018, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, A Williams, D Morgan, A C Jones, G D Williams, D Rees (Cyngor Sir) ac un aelod o'r cyhoedd Mr Sutton	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Roberts, W Williams, A Wyn, D ap Rhobert	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Pritchard. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb yn cynnwys Mr Sutton. Yr oedd Mr Sutton yn bresennol i cynrychioli preswylwyr Capel Coch i drafod cais cynllunio rhif 23C280L. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd yr aelodau i cefnogi preswylwyr Capel Coch: Mae llawer o preswylwyr wrth ymyl y safle heb derbyn gwybodaeth am y cais cynllunio. Mae'r Cyngor yn teimlo bod y Cyngor Sir ddim yn dilyn rheolau Mae traffig yng Nghapel Coch wedi cynyddu ers i'r siediau cael eu godi ym Mhlas Llanfihangel. Byddai cartrefi gwyliau ar yr un safle yn ychwanegu at y traffig. Bydd y tai yn agos i'r felin wynt. Nid yw safleoedd llaeth yn addas ar gyfer ardaloedd poblog oherwydd arogleuon, felly paham 11 o dai ar yr un safle? Bydd cartrefi gwyliau yn cael effaith ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 20.02.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Morgan yn cynnig a Cyng W Vaughan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru i wneud a symud y plac o Eglwys Llanddyfnan i'r gofeb
4.2	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.3	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru
4.4	**Llwybr Cyhoeddus Bodffordd - Llyn Frogwy** - Cytunwyd i dynnu y mater o'r agenda
4.5	**Lloches Bws** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris newydd am lloches 4 medr - £6740 + TAW (yn cynnwys symud y lloches arall). Cytunwyd i symud ymlaen. Bydd y Clerc yn trefnu cael pris am sylfaen concrid.
	Llofnod…….Cadeirydd 17.04.18

4.6	Cwynion am cyflwr Lôn Bodffordd - Lôn Llanerchymedd - Mae'r Cyngor Sir wedi gwneud y gwaith ond mae'r lon wrth ymyl yr eglwys eisio i wneud i'r un safon, hefyd darn o'r lôn wrth ymyl y siediau cyn cyraedd Bodffordd
4.7	Tregaian - Capel Coch - twll yn y lôn - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.8	Parcio wrth ymyl Ysgol Talwrn - Dywedodd y Clerc bod y PCSO methu mynychu y cyfarfod heno ond gobeithio bydd yn mynychu'r mis nesaf
4.9	Problemau gyda BT Broadband - Bydd y Clerc yn trosglwyddo cwynion i BT am llefydd gwledig heb mynediad i cyflymder uchel
4.10	Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.11	Ffoes wrth ymyl yr Eglwys, Talwrn - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Adran Polisi
5.1	Ffioedd am gladdu plant. Yn dilyn cais gan Llywodraeth Cymru, cytunwyd i beidio codi am claddu plant o hyn ymlaen.
	Cynllunio
5.2	23C348 Cais llawn ar gyfer newidiadau i fynediad amaethyddol Frogwy Fawr, Llangwyllog - dim sylwadau
5.3	23C301B Cais llawn ar gyfer trawsnewid adeilad allanol yn annedd ar gyfer golfalwr yn Pen y Garreg, Talwrn - dim sylwadau
5.4	23C336A Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol ac estyniad i 3 annedd gwyliau yn Bryn Tirion, Talwrn - Byddai'r aelodau'n hapusach pe bai'r eiddo ar gyfer pobl lleol. Mae problemau eisoes gyda charthffosiaeth yn Talwrn. Bydd eiddo ychwanegol yn ychwanegu at y straen presennol.
5.5	23C280L Cais llawn ar gyfer troi adeiladau allanol yn 11 o tai gwyliau ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth a gwella yr mynedfa yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - gweler 1
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Shelter Solutions - pris cysgodfan bws - gweler 4.5
6.2	Cerys Jones - Mae'r Clerc wedi derbyn cais i llenwi sedd wâg ar y Cyngor gan Mrs Cerys Jones, Cadfan, Llangwyllog. Cytunwyd i dderbyn cais Mrs Jones. Bydd y Clerc yn hysbysebu'r 3 sedd wâg arall
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu
7.1	Ceisiadau ariannol: Aren Cymru, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Urdd Rhanbarth Môn - £100 yr un
7.2	Cyngor Ynys Môn costau etholiad 04.05.17 £540.00
	Llofnod…….Cadeirydd 17.04.18

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dywedodd Cyng D Rees bydd y Cyngor Sir yn ail ymgynghori ar cau Ysgol Talwrn
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Baw ci - Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 17.04.18